

## Disgrifiad Swydd

<b>CYFARWYDDIAETH:</b>	Addysg a Chymorth i Deuluoedd
<b>ADRAN:</b>	Gwasanaethau Ar Ffiniau Gofal
<b>SWYDD:</b>	Gweithiwr Cymdeithasol 1 a 3 – Camddefnyddio Sylweddau
<b>GRADD Y SWYDD:</b>	GR10 – Gweithiwr Cymdeithasol 1 GR12 – Gweithiwr Cymdeithasol 3
<b>YN ATEBOL I'R:</b>	Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol – Gwasanaethau Ar Ffiniau Gofal

---

### DIBEN Y SWYDD:

Gweithio gyda phlant a phobl ifanc, gan gynnig dull sy'n cael ei lywio gan drawma o ran ymarfer, a mynd i'r afael â'r materion a allai fod wedi arwain at y camddefnyddio sylweddau a/neu'r camfanteisio y gallant fod yn ei brofi sy'n gysylltiedig yn gynhenid â'r problemau camddefnyddio sylweddau.

---

### PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:

- Cynorthwyo'r Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol mewn Gwasanaethau Ar Ffiniau Gofal drwy gyfrannu at ddarparu gwasanaethau, safonau gwasanaeth a datblygu'r tîm IFSS i ddiwallu anghenion y teuluoedd y mae angen cymorth arnynt.
- Cynnig ymyriad pwrpasol sy'n cael ei lywio gan drawma i blant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan helaeth mewn camddefnyddio sylweddau.
- Sicrhau bod sail dystiolaeth yn cael ei chymhwyso i ymarfer, drwy asesu anghenion person a'r modd y darperir ymyriadau.
- Arwain a hwyluso gweithio amlddisgyblaethol a datblygu rhwydweithiau effeithiol rhwng asiantaethau partner.
- Gweithio gyda theuluoedd sy'n ymwneud â phlant sy'n defnyddio sylweddau ac a allai wynebu risg o fynd i'r system ofal a/neu risg o gamfanteisio neu gymryd rhan mewn troseddoldeb o ganlyniad i'w camddefnyddio sylweddau.
- Cynnal cofnodion cywir, cyfoes a pherthnasol o gofnodion achos a chofnodion eraill fel y nodir mewn canllawiau a gweithdrefnau adrannol.
- Paratoi a chyflwyno adroddiadau a chofnodion i safon uchel o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt.

**Gradd 12 – Fel yr uchod ynghyd â:**

- Rhoi cyngor, ymgynghori a mentora arbenigol i staff Cymorth i Deuluoedd a myfyrwyr gwaith cymdeithasol
- Gweithio gyda theuluoedd sydd â sefyllfaoedd cymhleth iawn, risg uchel sy'n ymwneud â phlant sy'n defnyddio sylweddau ac a allai wynebu risg o fynd i'r system ofal a/neu risg o gamfanteisio neu gymryd rhan mewn troseddoldeb o ganlyniad i'w camddefnyddio sylweddau Rhoi ymateb cryf i anghenion a phryderon a nodwyd
- Cadeirio a chymryd rhan mewn cyfarfodydd amlasiantaethol yn ôl yr angen, gan weithio i lunio ymateb wedi'i gynllunio i ddiogelu plant a allai wynebu risg o gamfanteisio o ganlyniad i'w camddefnyddio sylweddau.

## DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

### lechyd a Diogelwch

Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y [Polisi lechyd a Diogelwch](#)

### Cyfle Cyfartal

Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

### Diogelu

Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

### Adolygiad a Hawl i Amrywio

Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

### Gwiriad Cofnodion Troseddol

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

## Manyleb y Person

### Uwch-ymarferydd – Camddefnyddio Sylweddau

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

Priodoleddau	Gofynion	Hanfodol	Dull Gwerthuso / Profi
<b>Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol neu gymhwyster Gwaith Cymdeithasol arall a gydnabyddir gan Ofal Cymdeithasol Cymru.</li> <li>Cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.</li> <li>PQ – Rhaglen Atgyfnerthu os ydych wedi cymhwyso ar ôl mis Ebrill 2016.</li> <li>2 flynedd o brofiad ôl-gymhwyso.</li> </ul>	<p>Ydy</p> <p>Ydy</p> <p>Ydy</p> <p>Ar gyfer GC3 yn unig.</p>	Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais.
<b>Gwybodaeth a Phrofiad</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Profiad o weithio gyda phobl ifanc sy'n agored i niwed sy'n camddefnyddio sylweddau.</li> <li>Profiad o weithio fel ymarferydd gyda phlant a theuluoedd mewn lleoliad gofal cymdeithasol.</li> <li>Gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferol o'r fframwaith deddfwriaethol a rheoliadol sy'n sail i waith gyda phlant a'u teuluoedd gan gynnwys gweithdrefnau amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed ac arferion gan gynnwys y System Derbyn Gofal.</li> <li>Gwybodaeth a dealltwriaeth o amrywiaeth o ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth gan gynnwys arfer systemig, damcaniaeth dysgu cymdeithasol, ymlyniad a cholled, perthynas, ac ymyriadau sy'n seiliedig ar gryfder.</li> <li>Gwybodaeth a dealltwriaeth o gamfanteisio a'r ymateb amlasiantaethol sy'n ofynnol i fynd i'r afael â CCE/CSE.</li> </ul>	<p>Ydy</p> <p>Ydy</p> <p>Ydy</p> <p>Ydy</p>	Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol

	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwybodaeth am bolisi, canllawiau statudol a'r gyfraith bresennol fel y maent yn cael eu cymhwyso mewn gofal cymdeithasol.</li> </ul>	Ydy	
<b>Gwybodaeth a Phrofiad (parhad)</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Profiad o adeiladu perthnasoedd gwaith adeiladol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch o fewn ffiniau proffesiynol.</li> <li>Gwybodaeth a dealltwriaeth o risgiau ac effaith camddefnyddio sylweddau ar bobl ifanc, eu teuluoedd a'r gymuned.</li> <li>Profiad o weithio fel ymarferydd mewn lleoliad amlasiantaethol.</li> <li>Profiad o ddatblygu, mewn partneriaeth â theuluoedd, ymyriadau pwrpasol sy'n addas i'w hanghenion penodol.</li> <li>Profiad o reoli llwyth achosion.</li> <li>Profiad uniongyrchol o achosion cymhleth.</li> </ul>	Ydy  Ydy  Ar gyfer GC3 yn unig. Ar gyfer GC3 yn unig.	Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol.
<b>Sgiliau a Rhinweddau Personol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymrwymiad i ddysgu a datblygu parhaus wrth gymhwyso arferion plant a theuluoedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth.</li> <li>Gallu crynhoi, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth asesu gymhleth a defnyddio hyn i gefnogi staff i lunio a gweithredu ymyriadau effeithiol.</li> <li>Gallu dylanwadu ac ysbrydoli ar draws disgyblaethau proffesiynol gan ddefnyddio tystiolaeth ac ymarfer i wella canlyniadau i rieni sy'n cael eu cefnogi.</li> <li>Lefel uchel o sgiliau ymgynghori, rhyngpersonol, cyfathrebu a negodi gan gynnwys y gallu i ddelio â materion cymhleth mewn modd sensitif a phriodol.</li> <li>Gallu ysgrifennu adroddiadau clir a chryno.</li> <li>Gallu myfyrio ar eich arfer eich hun a'ch tîm a nodi a gweithredu cyfleoedd parhaus i ddatblygu.</li> </ul>	Ydy  Ydy  Ydy  Ydy	Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol.
<b>Sgiliau a Rhinweddau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gallu gweithio yn ôl eich menter eich hun, trefnu llwythi gwaith personol a blaenoriaethu gwaith</li> </ul>	Ydy	Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol

<p><b>Personol (parhad)</b></p>	<p>o dan bwysau er mwyn bodloni terfynau amser.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gallu gweithio o safbwynt seiliedig ar gryfderau, gwrthwahanïaethol.</li> <li>• Sgiliau TG a threfnu da.</li> <li>• Gallu datblygu perthnasoedd/partnerïaethau gwaith amlasiantaethol effeithiol.</li>   <li>• Gallu ymdrin â thralod emosiynol ac ymddygiad heriol, gan gynnwys ymddygiad ymosodol.</li> <li>• Sgiliau mentora da a'r gallu i gynorthwyo eraill.</li> <li>• Mae angen i ymgeiswyr feddu ar drwydded yrru ddilys lawn y DU a bod yn barod i ddefnyddio eu cerbyd eu hunain ar deithiau busnes swyddogol.</li> <li>• Gallu gwneud penderfyniadau'n briodol.</li> <li>• Sgiliau ardderchog ym maes ymchwilio ac asesu.</li> <li>• Gallu datrys problemau wrth weithio dan bwysau.</li> <li>• Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.</li> </ul>	<p>Ydy</p> <p>Ydy</p> <p>Ydy</p> <p>SW3 yn unig</p> <p>SW3 yn unig</p> <p>SW3 yn unig</p>	
---------------------------------	---	--	--